


Cofion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Doreen Evans (Tanyfron) a Gwawr Davies (Cefn Meiriadog), y ddwy wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd yn ystod yr wythnos. Hefyd, cofiwn am Bob Williams (Tanyfron) sy'n parhau yn Ysbyty Glan Clwyd, a Barbara Williams (Henllan) sydd wedi cael ei symud i Ysbyty Abergelge erbyn hyn. Gweddiwn y byddant oll yn adnabod agosrwydd yr Arglwydd ac yn cael adferiad iechyd buan iawn.
- Llongyfarchiadau i Rhian 'Refail (Llanfair) ac Anthony Desmond ar eu priodas yng Nghapel Soar ddoe. Bendithion lu iddynt i'r dyfodol.
- Yr un yw'n llongyfarchion i Eric a Margaret Jones (Llansannan) ar ddathlu eu Priodas Aur.

Detholiadau



Os oes aelodau sy'n awyddus i gael copi Hen Nodiant neu Sol-ffa o Raglen Cymanfaoedd Canu 2011-2012, rhowch eich archeb i arolygwr eich Ysgol Sul ERBYN DIWEDD MIS MEDI, os gwelwch yn dda.

Y pris fydd £1.30.

(Arolygwyr: cysylltwch â Mair gyda'ch archeb, os gwelwch yn dda.)

“Yr Ordinhad Cyntaf yn y Bala 1811”

Os oes rhywun yn dymuno cael copi o ddarlith y Parch. Dr Goronwy Prys Owen “Yr Ordinhad Cyntaf yn y Bala 1811” a draddodwyd yn y Gymdeithasfa yn y Bala yn ddiweddar, gadewch i Mair wybod ERBYN HYDREF 3ydd, os gwelwch yn dda. Bydd y gyfrol yn costio £5.

I ddod

- **Pwyllgor Gŵyl yr Ysgol Sul** yn Ffestri Capel Henllan nos Lun, Hydref 3ydd am 7:30. (Bydd angen un cynrychiolydd o bob eglwys, os gwelwch yn dda.)
- **Oedfa Ddiolchgarwch yng Nghapel Saron** nos Iau, Hydref 6ed am 7:00 gyda'r Parch Tom Williams, Henllan yn pregethu.
- **Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant yng Nghapel Saron** dydd Sul, Hydref 9fed am 10:00
- **Gwasanaeth Diolchgarwch Ysgol Pant Pastynog** yng Nghapel Saron nos Lun, Hydref 17eg am 6:00.
- **Teulu Dedwydd?** - Diwrnod o gymdeithasu, hyfforddiant, ysbrydoli a chefnogaeth i rieni; arweinwyr eglwysig; a gweithwyr plant, ieuencid a theuluoedd yng Ngholeg y Bala dydd Sadwrn, Hydref 29ain o 10:30 – 3:00.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 25^{ain} Medi 2011

Sylwch bod C.I.C.
yn ail-gychwyn nos Wener!

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

“Fy nod yw ei adnabod Ef a grym ei atgyfodiad... ..” Philipiaid 3:10,11

Mae gan Paul nod bendant i'w fywyd – adnabod Crist. Mae hyn yn wir am ei holl fywyd. Weithiau byddwn yn dymuno dod i 'nabod Crist yn well ond mae gweddill ein bywyd yn aros yr un fath! Fel dau gariad ifanc yn tecstio'i gilydd ond ddim am fentro cyfarfod wyneb yn wyneb! Perthynas o bell ydi hyn yn hytrach na pherthynas agos o adnabod ein gilydd yn iawn.

Dod wyneb yn wyneb hefo Iesu yw pen draw pob peth a'r peth pwysicaf i'r Cristion. Paratoi ein hunain at y dydd hwnnw sy'n ein helpu i wneud synnwyr o bob peth sy'n digwydd yn ein bywyd!

Pan ddown wyneb yn wyneb hefo Iesu 'dan ni'n cael ein taro i lawr gan rym ei atgyfodiad! Nid person hanesyddol ydi'r Iesu wedyn ond Arglwydd pwerus sydd yn ddigon gostyngedig i fod yn Waredwr i mi! Rydym hefyd yn dod yn agos ato yn ei ddiodeffaint. Gwelaf ei fod yn gallu maddau i mi a dod ynof i gario fy maich ac i dawelu pob ofn. Adnabod Crist, grym ei atgyfodiad a chymdeithas ei ddiodeffiadau yw nod holl fywyd Paul. Dyma oedd ei flaenoriaeth.

Os yw dod i adnabod Crist yn tyfu fel blaenoriaeth yn eich bywyd chithau yna yr ydym wedi trefnu sawl grŵp 'Adnabod' i'ch helpu a'ch annog ymlaen eto eleni. Ar nos Fercher y byddan nhw y tymor hwn a byddwn yn hysbysebu lleoliad a natur amrywiol y grwpiau yn Llais Bro Aled. Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb sy'n gweithio mor galed i baratoi ac arwain y grwpiau ac i Dduw am eu bendithio mor hael dros y blynyddoedd. Beth am i chithau ystyried ail-ymuno neu ymuno o'r newydd mewn grŵp a fydd yn eich siwtio chi?

Bydd Grŵp 'Dod i Adnabod' yn cyflwyno sylfeini'r ffydd a bydd cyfle i drafod a dyfnhau profiad. Grŵp arall ydi'r cyfarfod 'Adnabod' gwreiddiol – sef cyfle eto i ddyfnhau adnabyddiaeth, rhannu a gweddio. Bydd dau grŵp newydd eleni sef Grŵp i ieuencid dan arweiniad Rhodri – cyfle i'r rhai gafodd eu derbyn nos Sul ac eraill o 15 oed i fyny i gyfarfod, a hefyd, Grŵp 'Adnabod dawn' sef cyfle i'r rhai sydd yn teimlo Duw yn eu galw i arwain - yn ôl y ddawn a gawsant ganddo - i ddyfnhau eu gwybodaeth o Gristnogaeth a'u hadnabyddiaeth o'r Arglwydd a'i alwad arnynt.

Diolch i chi am gefnogi'r oedfa nos Sul diwetha. Roedd yn braf gweld y capel yn llawn a theuluoedd hefo'i gilydd mewn oedfa. Diolch i bawb hefyd a fu'n helpu ym mhob ffordd. Os ddaru chi gael bendith o fod yno nos Sul, peidiwch â bod ddieithr! Mae croeso mawr i bob un ddod ar nos Sul. Ein nod ninnau – yr unig nod sydd gennym yw “ei adnabod Ef a grym ei atgyfodiad”.

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Iau • **Cwrdd Chwarter yr Annibynwyr** yng Nghapel Ebeneser, Graigfechan am 7.00. Yn dilyn y gynhadledd, bydd Mr John Davies, Dinbych yn sôn am waith CAB – Cyngor ar Bopeth.
- **Chwirydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cynnal Encil yng Ngholeg y Bala. Os oes rhywrai â diddordeb i fynychu, cysylltwch â Marian Davies (870619), os gwelwch yn dda.
- Gwener • **Gemau C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) i'r rhai oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15
- **Penwythnos Wigwam** yng Ngholeg y Bala yng nghwmni John Treharne o nos Wener, Medi 30ain tan nos Sadwrn, Hydref 1af. Croeso i bobl o bob oed. Ffoniwch y Coleg (01678 520565) ar fyrder os ydych chi am fynd.
- Sadwrn • **Darlithoedd DAWN Cymru** yng Nghapel Noddfa, Bow Street.
- Sul nesaf • Cynhelir **Gwasanaeth Arbennig** yn Llansannan am 6:00 i sefydlu Aneurin yn weinidog a chomisiynu Rhodri Glyn yn Gynorthwy-ydd Gweinidogaethol ym Mro Aled. Bydd lluniaeth ysgafn i bawb i ddilyn.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd yn 'Sul Croeso'n Ôl' yng Nghefn Meiriadog am 10.30 gyda Rhodri yn arwain yr oedfa. Bydd cinio i ddilyn ac Ysgol Sul i'r oedolion am 2.00. Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llanfair am 2.00 a chynhelir yr Ysgol Sul am 11.00.
- Sul nesaf Bydd Elinor Owen yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyd-reddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- (Hydref 9fed) Bydd y Parch. Wayne Roberts yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 ac, ynghyd â Mr a Mrs Hywel Hughes ar ran yr Henaduriaeth, yn ymddiddan ag Elinor Owen yn ystod yr oedfa am ei chymwysterau i waith y weinidogaeth, ac yna'n rhoi cyfle i'r eglwys, trwy bleidlais ddirgel, i ddatgan barn am yr ymgeisydd.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00. Cynhelir yr Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 2.00.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Mr Owain Roberts yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd y Parch Ioan Davies yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-reddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.
- Sadwrn EISTEDDFOD Y TAI – Bydd Erina yn y Neuadd rhwng 11:00 a 12:00 dydd Sadwrn (Hydref 1af) i gasglu eich gwaith ysgrifenedig ar gyfer yr Eisteddfod.
- Sul nesaf Bydd Dewi Williams yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 11.15.

Dalier Sylw

- Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:
- Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – rhodri@eglwysibroaled.com 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwys Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau